

gweithio i gwmni A. Gallenkamp & Co fel gwerthwr offer labordy, heb gael dim mwynhad o'r gwaith, felly derbyniodd gynnis Davies, gan ddechrau gweithio heb fod ar y staff, ochr yn ochr â'i waith gwerthu. Ond yn 1960, penodwyd ef i swydd lawn-amser Trefnydd Chwaraeon y BBC yng Nghymru, gan ddechrau cyswllt â'r BBC a fyddai'n para am y rhan fwyaf o'r 38 mlynedd nesaf.

Swydd gyntaf Morgan yn y byd darlledu oedd fel cyflwynydd a chynhyrchydd rhaglen chwaraeon ar y radio nos Sadwrn o'r enw *'Going Round the World'*, gan gyf-weld â phobl chwaraeon ledled y byd yn eu cartrefi eu hunain. Yn fuan wedyn aeth Morgan ati i greu a chyflwyno'r rhaglen deledu gyntaf am chwaraeon i gael ei ffilmio mewn stiwdio yng Nghymru. Gan nad oedd ond dwy gadair ar gyfer ei westeion cyntaf, Max Rawlings a H. B. Toft, eisteddodd Morgan ar fag sment a dim ond rhan uchaf ei gorff oedd i'w gweld ar y sgrîn.

Yn 1963, symudodd i Lundain i fod yn olygydd *Grandstand* (wedi gweithio cyn hynny fel cyflwynydd achlysurol) a *Sportsview*. Gadawodd *Grandstand* yn 1965 a dod yn golofnydd i'r *News of the World* a hefyd i weithio'n llawrydd fel cyflwynydd, gohebydd a sylwebydd rygbi ar deledu a radio, cyn symud i ITV yn 1966 i gynhyrchu'r rhaglen materion cyfoes, *'This Week'* ar gyfer Rediffusion am ddwy flynedd a hanner. Yn 1969 rhoddodd y gorau i gontract proffidiol fel gohebydd rygbi i'r *News of the World* mewn protest yn erbyn gwaith y papur yn cyhoeddi atgofion Christine Keeler, ac wedyn daeth yn un o ddau gapten tîm cyntaf ar raglen eiconig y BBC, *'A Question of Sport'* gyda Henry Cooper.

Ym Mawrth 1972, yn 41 oed, teithiodd Morgan i Bad Lippspringe yng Ngorllewin yr Almaen i sylwebu ar rownd derfynol cwpan rygbi Byddin Prydain ar y Rhein. Cafodd strôc yn Cologne ar y noson wedi'r gêm ac o ganlyniad bu'n gaeth i gadair olwyn am dri mis, gan ddioddef lleferydd bloesg a pharlys dros dro ar ochr chwith ei gorff. Cymerodd naw mis i wella. Trefnodd Comodor yr Awyrlu G. C. Larry Lamb ymgeledd iddo yn Ysbyty RAF Wegberg ar y ffin â'r Iseldiroedd gan nad oedd gan Morgan unrhyw gynilion nac yswiriant am ei salwch. Yn Wegberg, derbyniodd Morgan lythyr gan ei gyfaill, yr actor **Richard Burton**, a drysorodd am weddill ei oes. Dywedodd Burton:

Dewch mas o'r lle na. You will need time for recuperation after this ordeal. Have one of our homes in Gstaad, or Pays de Galles in Geneva. Everything will be provided including sticks and coal! Should you need anything as mundane as money, you have only to ask. Cofion, Richard.

Ar ôl tair wythnos yn Wegberg, trefnodd ei gyfaill yn y BBC, David Coleman, iddo ddychwelyd i Ysbyty Wrexham Park yn Stoke Poges, ac wedyn treuliodd bedwar mis yng Nghanolfan Adferiad Farnham Park. Disgrifiad Morgan o'i sefyllfa ariannol wedi'r strôc oedd, 'in cash terms, we were destitute.' Gwerthodd ef a'i wraig eu car a hyd yn oed fodrwy ddiweddio ei wraig i gael deupen llinyn ynghyd.

Ar 20 Ionawr 1973, dychwelodd Morgan i sylwebu teledu ar gyfer gêm Iwerddon yn erbyn Seland Newydd yn Landsowne Road. Ond ei sylwebaeth ar gêm arall y Crysau Duon yr wythnos wedyn a sicrhaodd le Morgan yn hanes chwaraeon ar y teledu. Roedd sylwebydd cyson y BBC, Bill McLaren, wedi ei daro'n wael y noson cyn gêm y Barbariaid yn erbyn Seland Newydd yng Nghaerdydd, a galwyd ar Morgan i gymryd ei le ar y funud olaf. Heb gael amser i wneud ei waith cartref ar y chwaraewyr, ac o fewn munud i ddechrau'r gêm, sylwebodd Morgan ar y cais mwyaf erioed, gellir dadlau, yn hanes Rygbi'r Undeb - cais a sgoriwyd gan Gareth Edwards - ac yn sicr y darn o rygbi a ailddarledwyd amlaf.

Yn gynnar yn 1973, cynigiwyd swydd i Morgan ar staff radio'r BBC fel Golygydd Chwaraeon. O fewn deuddeg mis fe'i gwnaed yn Bennaeth Darlledu Radio Allanol, ac erbyn 1976 roedd yn Bennaeth Grŵp Darlledu Teledu Allanol y BBC. Rhan o'i ddyletswyddau oedd Ymgysylltu Brenhinol. Ymhlith llawer o ddigwyddiadau gwladwriaethol ar y teledu, Morgan a wnaeth y trefniadau i ddarlledu angladd yr Arglwydd Mountbatten, pen-blwydd y Fam Frenhines yn bedwar ugain, Jiwbilî Arian y Frenhines a phriodas y Tywysog Charles a'r Fonesig Diana Spencer - y digwyddiad byw gyda'r nifer uchaf o wylwyr yn hanes y BBC ar y pryd gyda 500 miliwn yn gwylio ar draws y byd. Goruchwyliodd Morgan ddigwyddiadau chwaraeon di-rif fel rowndiau terfynol Cwpan yr FA, Cwpanau Byd a Gemau Olympaidd. Oherwydd ei brofiad yn ymadfer o'i strôc, roedd yn gefnogol iawn i chwaraeon yr anabl, a'i raglen ddogfen am Gemau Paralympaidd 1980 oedd y tro cyntaf i Deledu'r BBC ddarlledu am y digwyddiad. Ymddeolodd o'i swydd fel Pennaeth Darlledu Allanol yn 1987, ond daliodd ati gyda'i waith radio, gan gyflwyno ei sioe boblogaidd *'Sport on Four'* tan 1998.

Yn 1991 cynhwyswyd Morgan yn Oriel Anfarwolion Chwaraeon Cymru, ac yn 1997 roedd yn un o'r pymtheg chwaraewr cyntaf i gael eu cynnwys pan sefydlwyd Oriel Anfarwolion Rygbi Rhyngwladol. Cafodd ei gynnwys hefyd yn Oriel Anfarwolion Rygbi'r Byd yn 2009. Anrhydeddwyd Morgan am ei wasanaeth i ddarlledu gydag OBE yn 1977 a CVO (Commander of the Royal Victorian Order) yn 1986. Ac yntau'n un o'r rhai prin a lwyddodd i ragori mewn dwy yrfa wahanol, roedd parch mawr ato ym maes darlledu, fel y dengys geiriau Des Lynam: 'he was one of the best broadcasting voices of all time. A brilliant broadcaster himself, his advice to those of us trying to make our way in the business was wise and invaluable. But underlying it all was his great sense of fun. 'Enjoy yourself' he would say, "It's not working down the mine, is it?"'

Treuliodd Morgan ei ymddeoliad ar Ynys Wyth gyda'i ail wraig, Pat, a briododd yn 2001 ar ôl marwolaeth ei wraig gyntaf yn 1999. Yn ei flynyddoedd olaf, dioddefodd Morgan o gancr tannau'r llais a bu'n rhaid tynnu ei laryncs, gan ei amddifadu'n greulon o'r llais unigryw a fu'n sail i'w yrfa ddarlledu. Bu Cliff Morgan farw ar 29 Awst 2013, a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Holy Trinity, Bembridge, gydag anerchiadau gan Max Boyce a sgoriwr cais y Barbariaid, Syr Gareth Edwards, y gŵr a roddasai iddo y cyfle i draddodi'r darn mwyaf erioed o sylwebaeth rygbi'r undeb:

"Almost on the halfway line, Kirkpatrick, to Williams, this is great stuff, Phil Bennett covering. Chased by Alistair Scown, brilliant, oh that's brilliant! John Williams, Bryan Williams. Pullin, John Dawes - great dummy! David, Tom David - the halfway line - brilliant by Quinnell! This is Gareth Edwards, a dramatic start! What a score! Oh, that fellow Edwards. If the greatest writer of the written word would have written that story, no one would've believed him!"

Awdur

David Brayley

Ffynonellau

Cliff Morgan gyda Geoffrey Nicholson, *Cliff Morgan: the autobiography: Beyond the fields of play* (London 1996)

Peter Jackson, *Lions of Wales: a celebration of Welsh rugby legends* (Edinburgh 1998)

BBC News Wales: **Obituary: Cliff Morgan, 83, Wales fly-half and broadcaster**

The Independent: **Cliff Morgan: Rugby union international who went on to a glittering career with the BBC**

WRU: **Obituary: Cliff Morgan**

Teledu'r BBC: 'Cliff Morgan - A Lifetime of Achievement' (2013)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Cliff Morgan**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: **4056149296238180670001**

Wikidata: **Q614928**

Dyddiad cyhoeddi: 2021-11-12

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr i'r
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government